RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 24/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 19/03/2021

# Proffil Twristiaeth - Canolbarth Cymru 2017 - 2019

© Crown Copyright

Digital ISBN 978-1-80195-042-8

Teitl: Proffil Twristiaeth - Canolbarth Cymru 2017 - 2019
Is-deitl: Crynodeb o dueddiadau twristiaeth Canolbarth Cymru

ISBN 978-1-80195-042-8

Ymchwilydd: Jennifer Velu

Barn yr ymchwilydd ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ymchwil Twristiaeth

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 5771

e-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data yn gysylltiedig â thwristiaeth yn rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer y cyfnod 2017-2019, gan gymharu hynny â lefel gyffredinol Prydain, lefel Cymru gyfan a rhanbarthau eraill Cymru. Am wybodaeth gymharol, dylid darllen tri phroffil twristiaeth rhanbarthol arall Cymru, a'r proffil awdurdod lleol.

Yn dilyn cyngor y Swyddfa Ystadegau gwladol, er mwyn sicrhau bod yr ystadegau mor gadarn ag sy'n bosibl, cyflwynir y ffigurau ar ffurf cyfartaleddau blynyddol dros 3 blynedd. 2019 yw'r flwyddyn ddiweddaraf y mae gennym ddata manwl ar ei chyfer ar y raddfa ddaearyddol hon, felly mae'r proffiliau yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r proffiliau yn cynnwys tablau ar ymwelwyr dros nos domestig, dros nos rhyngwladol ac ymwelwyr undydd domestig â Chymru, a chyfraddau deiliadaeth llety.

## Mynegai


1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol .......... 5
2. Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain .......... 10
   - Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig .......... 11
   - Gwariant Cyfartalog fesul Taith .......... 12
   - Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith .......... 13
   - Diben y Daith .......... 13
   - Hyd y Teithiau Gwyliau .......... 15
   - Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau .......... 15
   - Tymhorau'r Teithiau .......... 16
   - Math o le yr ymwelwyd ag ef .......... 17
   - Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith .......... 18
   - Rhanbarth Tarddiad .......... 21
3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru .......... 21
   - Nifer yr Ymwelwyr a Gwariant Cysylltiedig .......... 23
   - Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad .......... 24
   - Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad .......... 25
   - Diben y Daith .......... 26
   - Gwlad Tarddiad .......... 28
4. Ymweliadau Undydd Twristiaeth .......... 29
   - Ymweliadau Undydd Twristiaeth a Gwariant Cysylltiedig .......... 30
   - Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad .......... 31
   - Gweithgareddau a gyflawnwyd .......... 32
   - Math o le yr ymwelwyd ag ef .......... 33
   - Pellter a deithiwyd .......... 35
   - Gwestai .......... 36
   - Gwestai Bach a Gwely a Brecwast .......... 37
   - Hunanddarpar .......... 37
   - Carafanau Statig a Chartrefi Gwyliau .......... 38
   - Carafanau Teithiol a Gwersylla .......... 39
   - Hosteli .......... 39
6. Adnoddau Pellach .......... 40
7. Atodiad .......... 41

# 1. Trosolwg a Phwyntiau Allweddol




**Twristiaeth yn gyffredinol**

Yn 2017-2019 cafwyd cyfartaledd blynyddol o 1.9 miliwn o deithiau dros nos gan ymwelwyr domestig o Brydain, 99,000 o ymweliadau rhyngwladol a 12.3 miliwn o ymweliadau undydd twristiaeth â Chanolbarth Cymru, a gwariant cyfartalog blynyddol o £994 miliwn yn gysylltiedig â hynny.

Derbyniodd Canolbarth Cymru 19 y cant o deithiau dros nos domestig, 10 y cant o ymweliadau rhyngwladol ac 13 y cant o ymweliadau undydd twristiaeth â Chymru. Roedd gwariant ar ymweliadau twristiaeth â Chanolbarth Cymru i gyfrif am 16 y cant o wariant twristiaeth yng Nghymru.

Cafwyd cynnydd o 32 y cant mewn gwariant cyfartalog blynyddol ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru, o £755 miliwn yn 2016-2018 i £994 miliwn yn 2017-2019. Mewn cymhariaeth, cafwyd gostyngiad o 2 y cant mewn gwariant yn gysylltiedig â thwristiaeth i £6.21 biliwn. *Gweler* ***Tabl 1.0***

*Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain*
Yng Nghanolbarth Cymru gwelwyd cynnydd o 2 y cant yn nifer cyfartalog blynyddol y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain, gan gyrraedd 1.9 miliwn rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond cafwyd cynnydd o 5 y cant yn nifer y teithiau yng Nghymru'n gyffredinol gan gyrraedd 9.9 miliwn. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 7 y cant mewn gwariant cysylltiedig ar deithiau dros nos domestig yng Nghanolbarth Cymru dros yr un cyfnod, a chynnydd o 6 y cant a gafwyd yng Nghymru gyfan. *Gweler* ***Tabl 1.1***

*Ymweliadau Undydd Twristiaeth Domestig o Brydain*
Cynyddodd nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru 12 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i 12.3 miliwn o deithiau, tra gostyngodd nifer y teithiau yng Nghymru gyfan 5 y cant. Cododd gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru 62 y cant dros yr un cyfnod, o £388 miliwn i £628 miliwn, ond bu cwymp o 5 y cant mewn gwariant ledled Cymru ar gyfartaledd. *Gweler* ***Tabl 1.3***

*Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru*
Cafwyd gostyngiad o 7 y cant yn nifer yr ymweliadau rhyngwladol â Chanolbarth Cymru yn 2017-2019 o gymharu â 2016-2018, gan gyrraedd 99,000, ond cafwyd gostyngiad o 2 y cant yn nifer y teithiau rhyngwladol i Gymru'n gyffredinol. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o 43 y cant mewn gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol â Chanolbarth Cymru i £31 miliwn, ond yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 1 y cant mewn gwariant rhyngwladol. *Gweler* ***Tabl 1.2***


**Cynyddodd cyfanswm y gwariant gan dwristiaid yng Nghanolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019.**

**Tabl 1.0 Gwariant (£ miliwn) yn ôl Cyfartaleddau Tair Blynedd ar gyfer Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain, Ymweliadau Rhyngwladol ac Ymweliadau Undydd Twristiaeth**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*

| | Gwariant (£ miliwn) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-2018 | % y gwariant | 2017-2019 | % y gwariant | % o newid |
| Prydain | £113,583 | | £116,138 | | 2% |
| Cymru | £6,315 | 100% | £6,206 | 100% | -2% |
| Gogledd Cymru | £1,636 | 26% | £1,474 | 24% | -10% |
| **Canolbarth Cymru** | **£755** | **12%** | **£994** | **16%** | **32%** |
| De-ddwyrain Cymru | £2,304 | 36% | £2,167 | 35% | -6% |
| De-orllewin Cymru | £1,282 | 20% | £1,237 | 20% | -4% |

Cafwyd cynnydd o 32 y cant yn y gwariant cyfartalog blynyddol ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru o £755 miliwn i £994 miliwn, ond gostyngodd gwariant cysylltiedig yng Nghymru gyfan 2 y cant i £6.21 biliwn.

**Dangosyn 1.0 Gwariant yng Nghymru a Chanolbarth Cymru 2017-2019**
*Ffynonellau: Arolwg Twristiaeth Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*




Yn 2017-2019, roedd cyfran y gwariant ar ymweliadau undydd yr un peth yng Nghanolbarth Cymru ag yng Nghymru ar gyfartaledd (63 y cant).

Roedd ymweliadau dros nos domestig i gyfrif am gyfran fwy o'r gwariant yng Nghanolbarth Cymru nag yng Nghymru gyfan, gyda 34 y cant o wariant twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru yn deillio o ymweliadau dros nos domestig o gymharu â 29 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd.

**Cafwyd cynnydd mewn teithiau dros nos domestig i Ganolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019, ond roedd y cynnydd hwnnw'n llai na'r hyn a welwyd yng Nghymru gyfan.**

**Tabl 1.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | **Teithiau (miliynau)** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 119.562 | | 120.671 | | 1% |
| Cymru | 9.451 | 100% | 9.914 | 100% | 5% |
| Gogledd Cymru | 3.378 | 36% | 3.653 | 37% | 8% |
| **Canolbarth Cymru** | **1.887** | 20% | **1.916** | 19% | **2%** |
| De-ddwyrain Cymru | 2.252 | 24% | 2.307 | 23% | 2% |
| De-orllewin Cymru | 1.862 | 20% | 1.939 | 20% | 4% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £23,574 | | £24,098 | | 2% |
| Cymru | £1,723 | 100% | £1,828 | 100% | 6% |
| Gogledd Cymru | £626 | 36% | £682 | 37% | 9% |
| **Canolbarth Cymru** | **£314** | 18% | **£335** | 18% | **7%** |
| De-ddwyrain Cymru | £373 | 22% | £393 | 22% | 5% |
| De-orllewin Cymru | £374 | 22% | £383 | 21% | 2% |

Yng Nghanolbarth Cymru gwelwyd 2 y cant o gynnydd yng nghyfartaledd blynyddol y teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain, gan gyrraedd 1.9 miliwn rhwng 2016-2018 a 2017-2019, o gymharu â chynnydd o 5 y cant yn nifer y teithiau yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd o 7 y cant mewn gwariant cysylltiedig ar deithiau dros nos domestig yng Nghanolbarth Cymru dros yr un cyfnod, ond cynnydd o 6 y cant yng Nghymru ar gyfartaledd. Arweiniodd cynnydd mwy mewn gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru (7 y cant) o gymharu â'r cynnydd yn nifer y teithiau (2 y cant) at gynnydd mewn gwariant fesul taith rhwng 2016-2018 a 2017-2019.

**Yng Nghanolbarth Cymru y gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer yr ymweliadau rhyngwladol â Chanolbarth Cymru a'r gwariant cysylltiedig o blith holl ranbarthau Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019.**

**Tabl 1.2 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 40.164 | | 40.740 | | 1% |
| Cymru | 1.060 | 100% | 1.041 | 100% | -2% |
| Gogledd Cymru | 0.303 | 29% | 0.299 | 29% | -1% |
| **Canolbarth Cymru** | **0.107** | **10%** | **0.099** | **10%** | **-7%** |
| De-ddwyrain Cymru | 0.525 | 50% | 0.525 | 50% | 0% |
| De-orllewin Cymru | 0.198 | 19% | 0.187 | 18% | -5% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £26,631 | | £27,637 | | 4% |
| Cymru | £446 | 100% | £448 | 100% | 1% |
| Gogledd Cymru | £90 | 20% | £89 | 20% | -1% |
| **Canolbarth Cymru** | **£54** | **12%** | **£31** | **7%** | **-43%** |
| De-ddwyrain Cymru | £196 | 44% | £224 | 50% | 14% |
| De-orllewin Cymru | £95 | 21% | £92 | 20% | -4% |

Cafwyd gostyngiad o 7 y cant yn nifer yr ymweliadau rhyngwladol â Chanolbarth Cymru yn 2017-2019 o gymharu â 2016-2018, gan gyrraedd 99,000 o ymweliadau, ond cafwyd gostyngiad o 2 y cant yn nifer y teithiau rhyngwladol i Gymru'n gyffredinol. Dros yr un cyfnod, cafwyd gostyngiad o 43 y cant mewn gwariant cysylltiedig gan ymwelwyr rhyngwladol â Chanolbarth Cymru i £31 miliwn, ond yng Nghymru gwelwyd gostyngiad o 1 y cant mewn gwariant rhyngwladol ar gyfartaledd.

**Cynyddodd niferoedd yr ymweliadau undydd twristiaeth a'r gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-19**

**Tabl 1.3 Nifer yr Ymweliadau Undydd Twristiaeth (miliwn) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliwn) - Cyfartaleddau Blynyddol Tair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain*


| | Teithiau (miliynau) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-2018** | **% y teithiau** | **2017-2019** | **% y teithiau** | **% o newid** |
| Prydain | 1,776.7 | | 1,716.4 | | -3% |
| Cymru | 99.3 | 100% | 94.4 | 100% | -5% |
| Gogledd Cymru | 25.0 | 25% | 22.7 | 24% | -9% |
| **Canolbarth Cymru** | **11.0** | **11%** | **12.3** | **13%** | **12%** |
| De-ddwyrain Cymru | 39.0 | 39% | 37.7 | 40% | -3% |
| De-orllewin Cymru | 24.3 | 24% | 22.7 | 24% | -7% |
| | **Gwariant (£ miliwn)** | | | | |
| | **2016-2018** | **% y gwariant** | **2017-2019** | **% y gwariant** | **% o newid** |
| Prydain | £63,378 | | £64,402 | | 2% |
| Cymru | £4,146 | 100% | £3,929 | 100% | -5% |
| Gogledd Cymru | £920 | 22% | £703 | 18% | -24% |
| **Canolbarth Cymru** | **£388** | **9%** | **£628** | **16%** | **62%** |
| De-ddwyrain Cymru | £1,735 | 42% | £1,550 | 39% | -11% |
| De-orllewin Cymru | £813 | 20% | £762 | 19% | -6% |

Cynyddodd nifer yr ymweliadau undydd twristiaeth yng Nghanolbarth Cymru 12 y cant rhwng 2016-2018 a 2017-2019 i 12.3 miliwn o deithiau, tra gostyngodd nifer y teithiau yng Nghymru gyfan 5 y cant. Cododd gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru 62 y cant dros yr un cyfnod, o £388 miliwn i £628 miliwn, ond bu cwymp o 5 y cant mewn gwariant ledled Cymru ar gyfartaledd. Canolbarth Cymru oedd yr unig ranbarth lle gwelwyd cynnydd mewn ymweliadau a gwariant cysylltiedig rhwng 2016-2018 a 2017-2019.


## 2. Ymwelwyr Dros Nos Domestig o Brydain

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain. Cyfartaleddau blynyddol a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall.

**Dangosyn 2.0 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*





**Dangosyn 2.1 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru fesul Rhanbarth yng Nghymru – Cyfartaledd Blynyddol dros Dair Blynedd 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Dros 2017-2019, derbyniodd Canolbarth Cymru gyfartaledd o 1.92 miliwn o ymwelwyr dros nos domestig bob blwyddyn. Dros yr un cyfnod, cyfrannodd yr ymwelwyr hyn £335 miliwn y flwyddyn at economi Cymru. Derbyniodd Canolbarth Cymru 19 y cant o'r holl ymweliadau dros nos domestig â Chymru, ac 18 y cant o'r gwariant cysylltiedig. Mae'r cyfrannau rhanbarthol o ymwelwyr dros nos domestig yn gyson ar y cyfan dros y tymor hwy.

**Nifer y Teithiau a Gwariant Cysylltiedig**


**Dangosyn 2.2 Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain (miliynau) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) i Ganolbarth Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




I raddau helaeth, mae'r gwariant a gynhyrchir gan ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr yn Nghanolbarth Cymru wedi parhau i gynyddu dros y blynyddoedd, a chyrhaeddodd y gwariant blynyddol cyfartalog cysylltiedig £335 miliwn yn 2017-2019. Bu cynnydd parhaus yn nifer cyfartalog blynyddol y teithiau i Ganolbarth Cymru rhwng 2010-2012 a 2013-2015, gyda mân ostyngiadau yn 2015-2017, cyn i'r nifer barhau i gynyddu a chyrraedd uchafbwynt o 1.92 miliwn o deithiau yn 2017-2019.

## Gwariant Cyfartalog fesul Taith


**Dangosyn 2.3 Gwariant Cyfartalog fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a Chanolbarth Cymru (£) - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Mewn gwariant cyfartalog fesul taith domestig gan ymwelwyr o Brydain â Chanolbarth Cymru, gwelwyd tuedd i gynyddu ar y cyfan, ac yn dilyn gostyngiad i £166 yn 2016-2018 dychwelodd i'r un lefel â 2015-2017 yn 2017-2019, sef £175. Yn gyson, bu'r gwariant cyfartalog ar gyfer pob taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ganolbarth Cymru fymryn yn is na chyfartaledd Cymru, ond yn dilyn cynnydd cryf yn 2017-2019, mae'r bwlch hwn wedi culhau i raddau.

### Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Taith

**Dangosyn 2.4 Nifer Cyfartalog o Nosweithiau fesul Taith Dros Nos Ddomestig o Brydain i Gymru a Chanolbarth Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Mae nifer cyfartalog y nosweithiau fesul taith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ganolbarth Cymru a Chymru'n gyffredinol wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 2006-2008, mae nifer cyfartalog y nosweithiau a dreuliwyd ar daith i Ganolbarth Cymru wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru, ond yn 2017-2019 gostyngodd hyd teithiau cyfartalog Canolbarth Cymru o 3.70 noson i 3.47 noson, tra gostyngodd cyfartaledd Cymru o 3.51 i 3.42.


### Diben y Daith

**Tabl 2.1 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---:|---:|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **1.916** |
| Gwyliau | 6.278 | 1.272 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 2.634 | 0.426 |
| Busnes | 0.723 | 0.137 |

Yn ystod 2017-2019, roedd gan Ganolbarth Cymru gyfran mymryn yn uwch o deithiau dros nos domestig ar gyfer gwyliau, sef 66 y cant, na chyfartaledd Cymru o 63 y cant. Yng Nghanolbarth Cymru gwelwyd cyfran lai o ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau (22 y cant) na Chymru ar gyfartaledd (27 y cant). Roedd cyfrannau'r teithiau dros nos domestig a oedd yn deithiau busnes yr un peth yng Nghanolbarth Cymru ag yng Nghymru gyfan, sef 7 y cant.


**Dangosyn 2.5 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

## Hyd y Teithiau Gwyliau

**Dangosyn 2.6 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Hyd y Daith i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl nad yw'r ffigurau'n creu cyfanswm o 100 y cant gan fod rhai cyfranogwyr heb ateb y cwestiwn hwn neu wedi dewis 'Ddim yn Gwybod/Arall'.*

Ar gyfer ymweliadau gwyliau â Chanolbarth Cymru yn 2017-2019, yr hyd arhosiad mwyaf poblogaidd oedd rhwng 1 a 3 noson (58 y cant) ac wedyn teithiau 4-7 noson a oedd i gyfrif am 36 y cant o wyliau. Roedd dosbarthiad teithiau gwyliau o ran eu hyd yn debyg i Gymru'n gyffredinol, gyda 60 y cant yn 1-3 noson o hyd, 35 y cant yn 4-7 noson o hyd a 5 y cant yn 8 noson o hyd neu fwy. Mae dosbarthiad y teithiau o ran eu hyd wedi bod yn gymharol gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.


## Cyfnod Bywyd y Teithiau Gwyliau

**Tabl 2.2 Nifer y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Cyfnod Bywyd yng Nghymru Gyfan a Chanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau Gwyliau** | **6.278** | **1.272** |
| Cyn-Nythwyr (16-34 yn ddi-briod ac wedi priodi a heb blant) | 0.724 | 0.149 |
| Teuluoedd (16-34 gyda phlant a 35-54 gyda phlant) | 2.284 | 0.346 |
| Pobl Hŷn Annibynnol (35-54 dim plant) | 1.089 | 0.300 |
| Pobl y mae eu plant wedi gadael cartref (55+) | 2.169 | 0.456 |


Yn ystod 2017-2019, pobl yr oedd eu plant wedi gadael cartref oedd y gyfran fwyaf ar ymweliadau dros nos domestig o Brydain â Chanolbarth Cymru (36 y cant). Ar ben hynny, mae gan Ganolbarth Cymru gyfran uwch o Bobl Hŷn Annibynnol (24 y cant) o gymharu â Chymru'n gyffredinol (17 y cant). Ar ben hynny, mae gan Ganolbarth Cymru gyfran is o Deuluoedd (27 y cant) o gymharu â Chymru'n gyffredinol (36 y cant).

**Dangosyn 2.7 Cyfran (%) y Teithiau Gwyliau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Cyfnod Bywyd – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




## Tymhorau'r Teithiau

**Dangosyn 2.8 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Tymor- Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
***Ffynhonnell**: Arolwg Twristiaeth Prydain*




Mae dosbarthiad tymhorol teithiau dros nos domestig yng Nghanolbarth Cymru a Chymru gyfan yn


ystod 2017-2019 yn adlewyrchu tymhorau prysur a thawel nodweddiadol. Roedd teithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain i Ganolbarth Cymru yn tueddu i ddigwydd ym misoedd yr haf ym mis Gorffennaf-Medi (36 y cant) ac Ebrill-Mehefin (32 y cant), a digwyddodd cyfran lai o deithiau ym mis Hydref-Mawrth (32 y cant) nag yn 2016-2018 (35 y cant), gan awgrymu dibyniaeth gynyddol ar gyfnod "brig" traddodiadol y gwanwyn-haf. Digwyddodd dros draean (68 y cant) deithiau dros nos domestig i Ganolbarth Cymru yn ystod 2017-2019 rhwng mis Ebrill a mis Medi, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 64 y cant.

### Math o le yr ymwelwyd ag ef

**Tabl 2.4 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru Gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **1.916** |
| Glan y Môr | 4.259 | 0.864 |
| Dinas fawr / tref fawr | 1.781 | 0.113 |
| Tref fach | 1.869 | 0.437 |
| Cefn Gwlad / pentref | 2.293 | 0.620 |

**Dangosyn 2.9 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain yn ôl Math o Le yr Ymwelwyd ag Ef yng Nghymru gyfan ac yn Rhanbarthau Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Sylwch ei bod hi'n bosibl y bydd y ffigurau'n creu cyfanswm mwy na 100% oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un Math o Le.*

Yn 2017-2019, y gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer ymwelwyr dros nos domestig o Brydain yng Nghanolbarth Cymru oedd glan y môr (45 y cant), sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 43 y cant.  Yr ail gyrchfan fwyaf poblogaidd oedd cefn gwlad neu bentref, a ddenodd bron i draean (32 y cant) o ymwelwyr i Ganolbarth Cymru, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 23 y cant.   Y gyrchfan leiaf poblogaidd i ymweld â hi ar daith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ganolbarth Cymru yn 2017-2019 oedd dinas neu dref fawr, gyda 6 y cant o ymweliadau'n ymweliadau i'r math hwn o gyrchfan, sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru o 18 y cant.

Mae'n bwysig cofio mai ymatebwyr eu hunain sy'n dewis sut i ddisgrifio'r math o le y maent yn ymweld ag ef, felly mae'r ymatebion yn oddrychol. Er enghraifft, gallai rhywun alw eu lleoliad yn 'bentref' yn hytrach na 'thref fechan'.

## Math o lety a ddefnyddiwyd ar daith

Sylwch y gall ymwelwyr dros nos domestig o Brydain Fawr aros mewn mwy nag un math o lety yn ystod un daith. Oherwydd hyn, bydd cyfrannau'r holl deithiau fesul pob math o lety bob amser yn creu cyfanswm o fwy na 100 y cant. Ar ben hynny, dim ond y mathau o lety a chanddynt sampl digon mawr i'w ddadansoddi ar draws pob un o bedwar rhanbarth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon.


Gweler **Tabl 7.6** am restr lawn o atebion posibl sydd wedi'u cynnwys o dan bob math o lety er mwyn cyfrifo'r cyfartaleddau tair blynedd.

**Tabl 2.5 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru a Chanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **9.914** | **1.916** |
| Gwesty / Motel | 2.452 | 0.320 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | 0.720 | 0.200 |
| Llety Hunanddarpar | 1.341 | 0.285 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | 2.702 | 0.501 |
| Carafanio a Gwersylla | 2.586 | 0.647 |

Yn 2017-2019, y math mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd ar daith dros nos ddomestig gan ymwelwyr o Brydain i Ganolbarth Cymru oedd 'Carafanio a Gwersylla', gyda mwy na thraean (34 y cant, 647,000) o deithiau'n cynnwys y math hwn o lety.  Yn ystod yr un cyfnod, y math mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd yng Nghymru gyfan oedd 'cartref ffrind/cartref perthynas/ail gartref/cyfran gyfnodol', a oedd i gyfrif am ychydig dros chwarter (27 y cant) o deithiau), sef cyfran debyg ag a gafwyd yng Nghanolbarth Cymru (26 y cant).  Derbyniodd Canolbarth Cymru gyfran lai o arosiadau mewn gwesty bach/motel (17 y cant) na Chymru gyfan, lle'r oedd chwarter (25 y cant) y teithiau dros nos domestig yn defnyddio'r math hwn o lety.

**Dangosyn 2.10 Cyfran (%) y Teithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Math o Lety - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*




**Tabl 2.6 Gwerth Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o Brydain yn ôl Math o Lety a Ddefnyddiwyd yn ystod taith i Gymru ac i Ganolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **£1,828** | **£335** |
| Gwesty / Motel | £557 | £65 |
| Tŷ Llety/Ffermdy/Gwely a Brecwast | £195 | £62 |
| Llety Hunanddarpar | £395 | £80 |
| Cartref ffrind/Cartref perthynas/Ail gartref/Cyfran gyfnodol | £233 | £36 |
| Carafanio a Gwersylla | £362 | £83 |


Er bod arosiadau mewn 'cartref ffrind/perthynas/ail gartref/cyfran gyfnodol yn 2017-2019 i gyfrif am gyfran sylweddol o nifer y teithiau, 26 y cant yng Nghanolbarth Cymru a 27 y cant yng Nghymru gyfan, roedd y teithiau hyn yn cyfrannu at gyfran llawer llai o wariant cysylltiedig, sef 11 y cant yng Nghanolbarth Cymru ac 13 y cant yng Nghymru gyfan.

Yng Nghanolbarth Cymru a Chymru'n gyffredinol, cyfrannodd teithiau a oedd yn cynnwys aros mewn gwesty/motel, neu lety hunanddarpar, at gyfran fwy o wariant cysylltiedig na nifer y teithiau. Er enghraifft, yng Nghanolbarth Cymru, roedd arosiadau hunanddarpar i gyfrif am 15 y cant o

deithiau (285,000) ond yn cyfrannu at 24 y cant (£80 miliwn).

**Dangosyn 2.11 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig â Theithiau Dros Nos Domestig o Brydain i Gymru Gyfan ac i Ranbarthau Cymru yn ôl Math o Lety – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**

*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*



**Rhanbarth Tarddiad**

**Tabl 2.7 Nifer y Teithiau Dros Nos Domestig gan Ymwelwyr o Brydain (miliynau) yn ôl Rhanbarth Tarddiad yng Nghymru gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Twristiaeth Prydain*

| | Cymru Gyfan | | Canolbarth Cymru | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | 9.914 | **100%** | **1.916** | **100%** |
| Yr Alban | 0.111 | 1% | 0.020 | 1% |
| Cymru | 1.76 | 18% | 0.310 | 16% |
| Lloegr | 8.044 | 81% | 1.586 | 83% |
| | | | | |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 0.088 | 1% | 0.004 | 0% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1.976 | 20% | 0.281 | 15% |
| Swydd Efrog a Humber | 0.403 | 4% | 0.065 | 3% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 0.669 | 7% | 0.161 | 8% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1.921 | 19% | 0.651 | 34% |
| Dwyrain Lloegr | 0.373 | 4% | 0.043 | 2% |
| Llundain | 0.577 | 6% | 0.068 | 4% |
| De-ddwyrain Lloegr | 1.132 | 11% | 0.176 | 9% |
| De-orllewin Lloegr | 0.905 | 9% | 0.137 | 7% |

Yn 2017-2019, roedd gan Ganolbarth Cymru gyfran lled debyg o deithiau dros nos domestig gan ymwelwyr o dair gwlad Prydain, er bod llai o'r ymwelwyr yn tarddu o Gymru, ac ychydig yn fwy yn tarddu o Loegr o gymharu â chyfartaledd Cymru.

Roedd dros draean (34 y cant) o ymwelwyr dros nos domestig â Chanolbarth Cymru yn 2017-2019 yn drigolion o Orllewin Canolbarth Lloegr. Nid yw'r niferoedd hyn yn syndod, gan fod Gorllewin Canolbarth Lloegr yn ffinio â Chanolbarth Cymru, ac mae'r cysylltiadau trafnidiaeth cyfagos yn cynnig mynediad rhwydd i'r ardal.


## 3. Ymwelwyr Rhyngwladol â Chymru

Casglwyd yr holl ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Cyfartaleddau a gymerwyd dros dair blynedd, 2017-2019, yw'r ffigurau a ddangosir, oni nodir fel arall.

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol amcangyfrifon diwygiedig o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol ar gyfer ymweliadau i mewn rhwng 2009 a 2019 yn seiliedig ar ddiweddariad o'r dull pwysoli.  Ceir manylion pellach ar Dudalennau teithio a thwristiaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r adran hon yn defnyddio fersiwn wedi'i diweddaru o'r data, felly ni fydd ffigurau a ddyfynnir yma ar gyfer 2009 hyd 2018 yn cyfateb â'r ffigurau mewn cyhoeddiadau blaenorol.  Mae tablau sy'n crynhoi'r data gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer 2009-2019 yn Nhabl 7.2.

**Dangosyn 3.0 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru yn ôl Rhanbarth Cymru – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





**Sylwch y gallai'r ffigurau greu cyfanswm mwy na 100 y cant oherwydd y gallu i ymweld â mwy nag un rhanbarth.*

Dros 2017-2019, derbyniodd Canolbarth Cymru gyfartaledd blynyddol o 99,000 o ymweliadau rhyngwladol bob blwyddyn, gan gynhyrchu £31 miliwn y flwyddyn mewn gwariant cysylltiedig. Derbyniodd Canolbarth Cymru 1 o bob 10 ymweliad rhyngwladol â Chymru, y gyfran leiaf o ymweliadau rhyngwladol â'r pedwar rhanbarth.

## Nifer yr Ymwelwyr a Gwariant Cysylltiedig

**Dangosyn 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) a Gwariant Cysylltiedig (£ miliynau) yng Nghanolbarth Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*





**Mae'r data ar wariant ymwelwyr rhyngwladol yng Nghanolbarth Cymru yn 2016 yn swm mawr, a gododd y cyfartaledd 3 blynedd ar gyfer 2014-2016, 2015-2017 a 2016-2018*

Gostyngodd nifer yr ymweliadau rhyngwladol a'r gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019. Ymddengys fod y naill a'r llall wedi cyrraedd uchafbwynt tua 2015-2017, yn dilyn cyfnod lle cafwyd cynnydd o'r naill flwyddyn i'r nesaf ers 2009-2011.

Cafwyd gostyngiad o 7 y cant yn nifer yr ymweliadau â Chanolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019, tra'r oedd ffigur Cymru gyfan wedi cyrraedd ei uchafbwynt, gan ostwng 2 y cant dros yr un cyfnod.  Gostyngodd gwariant cysylltiedig yng Nghanolbarth Cymru 43 y cant, o gyfartaledd blynyddol o £54 miliwn i £31 miliwn, tra cafwyd cynnydd o 1 y cant mewn gwariant yng Nghymru gyfan.

### Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad


**Dangosyn 3.2 Gwariant Cyfartalog fesul Ymweliad Rhyngwladol (£) yng Nghymru Gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru – Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Yn 2017-2019, y gwariant cyfartalog fesul ymweliad rhyngwladol â Chanolbarth Cymru oedd £310, sef gostyngiad o 38 y cant o gymharu â 2016-2018. Er cymhariaeth, dros yr un cyfnod, cyfartaledd Cymru gyfan oedd £431, sef cynnydd bach o £421 yn 2016-2018. Roedd Canolbarth Cymru wedi derbyn gwariant cyfartalog llawer uwch fesul ymweliad rhyngwladol na Chymru'n gyffredinol rhwng 2014-2016 a 2016-2018, cyn disgyn i swm a oedd £121 yn is na chyfartaledd Cymru yn 2017-2019. Yn y gorffennol, mae nifer cyfartalog y nosweithiau fesul ymweliad, sy'n debygol o effeithio ar wariant cyfartalog fesul ymweliad, wedi bod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, ond mae'r nifer hwnnw wedi bod yn gostwng ers 2015-2017 (gweler Dangosyn 3.3).

## Nifer cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad[1]

**Dangosyn 3.3 Nifer Cyfartalog y Nosweithiau fesul Ymweliad Rhyngwladol â Chymru a Chanolbarth Cymru - Cyfartaleddau Blynyddol dros Dair Blynedd**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Rhwng 2009-2011 a 2012-2014, roedd nifer cyfartalog y nosweithiau a dreuliwyd yng Nghanolbarth cymru gan ymwelwyr rhyngwladol yn is na chyfartaledd cyffredinol Cymru, ond ers hynny mae'r nifer hwnnw wedi bod yn uwch, ac yn 2015-2017 yr oedd yn llawer uwch, sef 9.72 o nosweithiau o gymharu â 7.08 ar gyfer Cymru. Gostyngodd hyd teithiau cyfartalog gan ymwelwyr rhyngwladol â Chanolbarth Cymru rhwng 2016-2018 a 2017-2019, o 9.34 diwrnod i 8.61 diwrnod, ond yng Nghymru cafwyd cynnydd o 0.04 diwrnod i hyd cyfartalog y teithiau.[1]

[1] Yn 2017, gwelwyd cynnydd sylweddol yn amcangyfrif y nosweithiau a dreuliwyd gan ymwelwyr rhyngwladol yng Nghanolbarth Cymru o gymharu â'r flwyddyn gynt. Ni welwyd hynny yn unman arall yng Nghymru. Y rheswm am hyn oedd cynnydd mawr yn hyd cyfartalog teithiau yng Ngheredigion yn 2017. Ni pharhaodd y cynnydd hwnnw yn 2018, felly gellir ystyried 2017 yn allanolyn.


## Diben y Daith

**Tabl 3.1 Nifer yr Ymweliadau Rhyngwladol (miloedd) yn ôl Diben y Daith yng Nghymru Gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Teithiau** | **1,041** | **99** |
| Gwyliau | 424 | 48 |
| Busnes | 159 | 8 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 382 | 40 |
| Arall | 65 | 3 |
| Astudio | 11 | 0 |

Yn 2017-2019, roedd bron hanner yr ymweliadau rhyngwladol â Chanolbarth Cymru yn ymweliadau ar gyfer gwyliau (48 y cant), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (41 y cant). Roedd dwy ran o bump (40 y cant) o ymweliadau rhyngwladol â Chanolbarth Cymru yn ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau, sydd unwaith eto'n uwch na chyfartaledd Cymru (37 y cant). I'r gwrthwyneb, cafodd Canolbarth Cymru gyfran lai o deithiau busnes (8 y cant) na Chymru gyfan (15 y cant).


**Dangosyn 3.4 Cyfran (%) yr Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*



**Tabl 3.2 Gwariant yn Gysylltiedig (£ miliwn) ag Ymweliadau Rhyngwladol yn ôl Diben y Daith yng Nghymru Gyfan ac yng Nghanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| | Cymru Gyfan | Canolbarth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gwariant** | **448.4** | **30.9** |
| Gwyliau | 178.2 | 14.1 |
| Busnes | 63.6 | 4.8 |
| Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau | 151.0 | 9.3 |
| Arall | 20.2 | 1.7 |
| Astudio | 35.5 | 1.0 |

**Dangosyn 3.5 Cyfran (%) y Gwariant yn Gysylltiedig ag Ymweliadau Rhyngwladol â Chymru Gyfan a Rhanbarthau Cymru yn ôl Diben y Daith – Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*




Fel y gwelir ar gyfer Cymru gyfan ac ar draws y rhanbarthau, nid yw gwahanol fathau o ymwelydd rhyngwladol o reidrwydd i gyfrif am symiau cyfrannol o wariant. Yn 2017-2019, ymwelwyr rhyngwladol yn dod i Ganolbarth Cymru i ymweld â ffrindiau neu berthnasau oedd i gyfrif am 40 y cant o'r teithiau, ond dim ond 30 y cant o'r gwariant cysylltiedig. Roedd teithiau busnes i gyfrif am 8 y cant o ymweliadau, ond i gyfrif am 16 y cant o wariant, ac roedd teithiau gwyliau i gyfrif am oddeutu yr un cyfrannau o deithiau (48 y cant) a gwariant (46 y cant).

## Gwlad Tarddiad

Sylwch nad yw tabl 3.3 ond yn dangos deg gwlad tarddiad uchaf ymwelwyr rhyngwladol yn ôl nifer yr ymweliadau â Chanolbarth Cymru a Chymru gyfan.

**Tabl 3.3 Y 10 Uchaf o blith Gwledydd Tarddiad Ymweliadau Rhyngwladol ar sail Nifer yr Ymweliadau (000oedd) a chyfrannau (%) ar gyfer Cymru gyfan a Chanolbarth Cymru - Cyfartaledd Blynyddol 2017-2019**
*Ffynhonnell: Arolwg Teithwyr Rhyngwladol*

| Cymru Gyfan | | | Canolbarth Cymru | | |
|---|---|---|---|---|---|
